***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 579

# Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth Leol 2008 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2009

**Enwi, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth Leol 2008 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2009 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 1985" ("*the 1985 Act*") yw Deddf Trafnidiaeth 1985;(**1**); ac

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Trafnidiaeth 2000 (**2**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Trafnidiaeth Leol 2008;

(**1**) 1985 p.67.
(**2**) 2000 p.38.